

COFNODION PWYLLGOR CYLLID TACHWEDD 26 2020

Presennol : Cyngorwyr: Gwilym Jones (Cadeirydd), Selwyn Griffiths, Seimon Brooks, Ian Jones, Nia Jeffreys, Llywelyn Rhys, Aled Griffith, Marian Roberts (Clerc)

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Gwilym Jones.

Archwilio'r cyfrifon.

(Mantolen hyd at 19eg o Dachwedd ynghlwm).

Adroddwyd fod sefyllfa ariannol y Cyngor Tref yn dderbyniol ac yn cymharu'n ffafriol efo ffigyrau Tachwedd 2019. Mae gwariant mwyaf y Cyngor Tref i ddod sef costau Nadolig a cheisiadau ariannol blynyddol. Dylai incwm y Cyngor Tref godi yn sylweddol ar ôl arwyddo i'r cynllun meysydd parcio 10% ond ni fydd y taliad cyntaf wedi ei dderbyn tan y flwyddyn ariannol nesaf. Bydd y swm yma yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn ond yn fanteisiol iawn i goffrau'r Cyngor.

Penderfynwyd : Derbyn y wybodaeth yn ôl cynnig y Cyng. Selwyn Griffiths , eiliwyd gan y Cyng. Nia Jeffreys.

Dechrau trafodaeth ac ystyried lefel praesept 2021/2022.

Roedd y Pwyllgor yn awyddus iawn i gadw'r Praesept fel y mae. Nodwyd iddi fod yn flwyddyn anodd i lawer o drigolion yr ardal oherwydd y Pandemig ac na ddylid codi dim ar y Treth Cyngor yn 2021-22. Pwysleiswyd ei bod yn bwysig fod arian y Cyngor yn cael ei wario i wella sefyllfa trigolion Porthmadog a'r cylch ac na ddylid cadw gormod o arian wrth gefn. Nodwyd fod y Cyfrif Cadw fwy neu lai yn 50% o swm y Praesept.

Penderfynwyd : rhoi cynnig gerbron y Pwyllgor llawn fod swm y Praesept yn aros yr un fath ar gyfer 2021-22.

Cynnig- Cyng. Selwyn Griffiths

Eilio – Cyng. Seimon Brooks

Penodi Archwiliwr Mewnol am 2019/2020

Canmolwyd Luned Fôn Jones o Wasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd am ei gwaith trylwyr yn archwilio llyfrau 2019 -20.

Penderfynwyd : Gofyn i Luned Fôn Jones ymgymryd â'r gwaith am y flwyddyn 2020 – 21.

Cynnig – Cyng. Selwyn Griffiths,

Eilio – Cyng. Ian Jones

Biliau i'w talu :-

Gwilym Jones	ad-daliad blaendorch Sul y Cofio	£ 20.00
R J Electrics	Goleuadau Nadolig	£ 3,096.48
Cyngor Gwynedd	Archwiliad mewnol 2019/2020	£ 276.00
B2	Llungopio Tachwedd	£ 29.16
Ashley Hughes	Offer swyddfa	£ 28.86

Penderfynwyd : Talu'r biliau yn ôl cynnig y Cyng. Llywelyn Rhys , eiliwyd gan y Cyng. Selwyn Griffiths

Ceisiadau/ materion Cynllunio :

(i) Cais Cynllunio C20/0899/44/CC

Greaves House, Plas Tan yr Allt, Tremadog – gwaith i goed o dan Orchymyn Gwarchod Coed

(ii) Cais Cynllunio C20/0904/44/CC

Mill House, Tremadog - gwaith i goed o dan Orchymyn Gwarchod Coed

Penderfynwyd : cyflwyno dim sylw ar y ddau gais uchod yn ôl cynnig y Cyng. Seimon Brooks, eilwyd gan y Cyng. Nia Jeffreys.

Unrhyw fater arall

Trafodwyd e-bost y Cyng. Carol Hayes yn gwneud cais am hyfforddiant Zoom er mwyn cael cymryd rhan yng nghyfarfodydd y Cyngor. Cytunwyd fod yn rhaid sicrhau mynediad i bob Cynghorydd i'r cyfarfodydd a bod yn rhaid i'r Cyngor weithredu yn deg i oresgyn unrhyw anhawster ynglyn â chael mynediad er mwyn cario allan dyletswyddau a chyfrifoldebau swydd Cynghorydd etholedig. Mae'r Cyng. Carol Hayes eisoes wedi bod mewn cysylltiad â Faris Raouf o Cymru1.net ac wedi adrodd yn ôl i'r Clerc mewn gohebiaeth ddiweddar nad yw'n gwybod (heb gael hyfforddiant) beth yn union yw ei anghenion o ran offer cyfrifiadurol. Cytunwyd y dylai unrhyw hyfforddiant gyfrifiadurol gael ei drefnu drwy'r Clerc. I'r perwyl hwnnw, **penderfynwyd** y bydd y Clerc yn cysylltu efo Faris Raouf a Carol Hayes i drefnu sesiwn o hyfforddiant addas a phwrpasol.

Marian Roberts
28.11.2020